## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996 (O.S. 1996/2097, fel y'i diwygiwyd eisoes) ("Rheoliadau 1996") mewn perthynas â Chymru. Mae Rheoliadau 1996 yn gymwys i Brydain Fawr gyfan.

**2.** Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 2.1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2277/2000 yn mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion (OJ Rhif L321, 19.12.2000, t.47). Mae'r Erthygl honno, y daw ei heffaith i ben ar 30 Mehefin 2001, yn darparu mai dim ond os ceir canlyniad prawf negyddol ar gyfer enseffalopathi sbyngffurf buchol drwy brawf cyflym a gymeradwywyd fel y cyfeirir ato yn Atodiad IV(A) o Benderfyniad y Comisiwn 98/272/EC (OJ Rhif L122, 22.4.1998, t.59, fel y'i diwygiwyd) y gellir rhyddhau cig o anifeiliaid buchol sy'n fwy na 30 mis oed ac sydd wedi'u cigydda yn y Gymuned Ewropeaidd ar ôl 1 Ionawr 2001. Mewnosodwyd Erthygl IV(A) yn y Penderfyniad hwnnw gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/374/EC (OJ Rhif L135, 8.6.2000, t.27).

**3.** Yn unol ag adran 65(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998 p.38) a Rheol Sefydlog 22.3 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Gweinidog Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cynnal arfarniad rheoliadol o dan adran 65 o'r Ddeddf oherwydd y dyddiad cau i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, sef 1 Ionawr 2001. Ymgynghorwyd yn unol ag adran 48(4) a (4B) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) a gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 1, Southgate House, Caerdydd CF10 1EN.

**4.** Am yr un rheswm, yn unol ag adran 66(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 22.1, penderfynodd y Gweinidog Cynulliad nad oedd yn rhesymol ymarferol gwneud y Rheoliadau hyn yn Gymraeg a Saesneg. Felly mae'r testun Cymraeg yn gyfieithiad o'r Rheoliadau hyn, sydd wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg.